




ClwydAlyn | Llywodraeth Cymru Welsh Government | Powys | GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Addysgu Powys Powys Teaching Health Board

# Neuadd Maldwyn

## Y Trallwng, Powys

**Mae Neuadd Maldwyn yn Gynllun Byw'n Annibynnol mewn adeilad pwrpasol. Mae'n cynnig cyfuniad o ffordd o fyw annibynnol a gofal hyblyg, 24 awr, ar y safle, yn ôl yr angen, gan roi tawelwch meddwl nawr ac ar gyfer y dyfodol.**

" Byw'n annibynnol gyda gofal a chymorth yn ôl yr angen."



**Mae'r cynllun yn cynnwys 66 o fflatiau hunangynhwysol 1 a 2 ystafell wely, sydd wedi'u dylunio'n arbennig ar gyfer pobl 60 oed a throsodd. Mae pob fflat yn gysurus, yn breifat ac yn fodern ac mae cymorth wedi'i deilwra ar gael yn ôl yr angen.**

Yr hyn sy'n gwneud y cartrefi hyn yn arbennig yw eu pwyslais unigryw ar hybu annibyniaeth. Mae gofal a chymorth hyblyg ar gael ar y safle, felly gall trigolion fwynhau'r rhyddid o fyw yn eu cartrefi eu hunain, gan fod yn dawel eu meddwl o wybod fod cymorth bob amser ar gael. Mae'n fwy na lle i fyw, mae'n gartref.

Mae'r hen adeilad trawiadol, hanesyddol, neo-Sioraidd, Gradd II rhestredig, wedi'i drawsnewid yn fflatiau. Hwn oedd pencadlys Cyngor Dosbarth a Chyngor Sir Drefaldwyn ar un adeg, a chafodd ei ddefnyddio'n fwy diweddar gan Gyngor Sir Powys tan 2021. Mae'r adeilad yn dyddio o ddechrau'r ugeinfed ganrif.

Yn ystod y gwaith adeiladu, cymerwyd gofal i barchu treftadaeth yr adeilad a chadw'r cyfoeth o nodweddion pensaernïol gwreiddiol. Mae pob manylyn wedi cael ei ystyried yn ofalus i gyfuno'r cymeriad hanesyddol ag elfennau cyfoes.

Mae'r fflatiau wedi'u hinswleiddio i fod yn effeithlon o ran ynni ac maent yn cynnwys technoleg fodern i hybu annibyniaeth. Mae'r cartrefi yn ddiogel, yn gyfleus, yn chwaethus, ac yn groesawgar ac wedi'u hamgylchynu gan erddi hardd wedi'u tirlunio.

## Sganiwch y cod QR isod i weld Neuadd Maldwyn:





## NODWEDDION ALLWEDDOL

- Fflatiau 1 a 2 ystafell wely i'w rhentu yn amodol ar feini prawf cymhwysedd
- Preifatrwydd ac annibyniaeth
- Gerddi wedi'u tirlunio
- Bwyty
- Lolfa
- Ystafell amlweithgaredd
- Ystafell ymolchi â chymorth ar wahân
- Ystafell golchi dillad
- Ystafell i westeion
- Storfa bygis/sgwteri





## Beth yw Byw'n Annibynnol gyda Gofal a Chymorth?

**Mae'r trefniant arloesol hwn yn cynnig cydbwysedd perffaith rhwng annibyniaeth a thawelwch meddwl, gan gyfuno'r rhyddid o gael eich cartref eich hun â'r sicrwydd o ofal a chymorth cartref 24 awr ar y safle, wedi'i deilwra i'ch anghenion personol.**

Bydd gennych eich fflat preifat eich hun gyda thenantiaeth ddiogel, gan roi'r sefydlogrwydd i chi fyw'n hyderus ac yn annibynnol. Os bydd angen cymorth ychwanegol arnoch, gellir trefnu gofal personol ar unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos.

Mae Rheolwr Cynllun cyfeillgar ar y safle i'ch helpu i reoli eich tenantiaeth a'ch bywyd bob dydd. Gall cyplau neu ffrindiau fyw gyda'i gilydd hefyd, felly bydd y bobl bwysicaf yn eich bywyd bob amser wrth law.

Chi fydd yn rheoli eich materion ariannol ac er cyfleuster, mae cinio ar gael bob dydd yn y bwyty croesawgar ar y safle.



" Mae Cynllun Byw'n Annibynnol yn syniad da. Gallwch aros yn annibynnol, teimlo'n ddiogel, a chael cyfle i gyfarfod pobl eraill a gwneud ffrindiau newydd."

**Preswyliwr Cynllun Byw'n Annibynnol ym Mhlas Telford, Wrecsam**

## LLEOLIAD

**Mae'r datblygiad wedi'i amgylchynu gan erddi wedi'u tirlunio sy'n cael eu cynnal yn dda, felly mae yma ardaloedd awyr agored tawel lle gallwch ymlacio. Mae'r lleoliad canolog yn gyfleus iawn ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus.**

**Neuadd Maldwyn, Ffordd Hafren, Y Trallwng, Powys, SY21 7FE.**



## Sut i ymgeisio

**Efallai yr hoffech chi fyw yma neu mae'n bosibl eich bod yn chwilio am rywle ar gyfer aelod o'r teulu neu ffrind. Beth am gael rhagor o fanylion, a mynegi eich diddordeb yn y cynllun.**

**Os hoffech gael rhagor o fanylion neu wneud cais am le:**

**Ffoniwch:** 0800 183 5757
**E-bost:** help@clwydalyn.co.uk
**Gwefan:** clwydalyn.co.uk/neuadd-maldwyn/